

DIWEDDARIAD RHANDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Y MÔR A PHYSGODFEYDD

DIWEDDARIAD RHANDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR

TACHWEDD 2019


Cyflwyniad

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) yn darparu fforwm ar gyfer trin a thrafod ac yn cynnig cymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru, ar bolisi morol ac arfordirol strategol. Dyma'r grŵp rhanddeiliaid trosfwaol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, sy'n mynd law yn llaw â Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG), sef prif fforwm Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru.

Mae'r WMAAG yn cynnwys 33 o randdeiliaid arweiniol sy'n cynrychioli buddiannau pob sector sydd â diddordeb neu fuddsoddiad yn y môr yng Nghymru. Mae manylion y sectorau a'r sefydliadau arweiniol i'w gweld yng [Nghylch Gorchwyl](#) y grŵp.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddiweddariad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru



Ar 12 Tachwedd cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, [Gynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru](#), gan bennu ein gweledigaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy ein moroedd yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Cyhoeddwyd y cynllun ddeg mlynedd union ar ôl Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, a aeth ati i bennu deddfwriaeth ar gyfer Cynllunio Morol yn y DU.

Ymhellach, fe wnaethom gyhoeddi nifer o ddogfennau ategol gyda'r cynllun:

- [Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd](#) – Adroddiad annibynnol i ddeall sut gallai ein cynllun morol effeithio ar fywyd gwylt.
- [Arfarniad o Gynaliadwyedd](#) – Adroddiad annibynnol i sicrhau bod ein cynllun morol yn cyrraedd nodau cynaliadwyedd a llesiant.

DIWEDDARIAD RHANDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

- [Crynodeb o newidiadau yn dilyn ymgynghori](#) – Rhestrau o'r newidiadau a wnaed i Gynllun Morol Cenedlaethol drafft Cymru yn dilyn ymgynghori.
- Ymhellach, rydym wedi diweddarau ein [Porthol Cynllunio Morol](#) sy'n cyflwyno'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer ardal y Cynllun Morol.



Y canolbwynt yn awr fydd rhoi'r cynllun ar waith, ac rydym wrthi'n llunio cyfres o ddogfennau i ategu'r dasg hon, yn cynnwys canllawiau gweithredu a fframwaith monitro ac adrodd. Gan fod y cynllun wedi'i gyhoeddi bellach, rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol ei ystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau a all effeithio ar Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a rhaid i bob penderfyniad yn ymwneud ag awdurdodi a gorfodi gael ei wneud yn unol ag ef. Rydym wedi sefydlu [Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol](#) i helpu Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol i ystyried sut gallant fodloni eu cyfrifoldebau statudol (er enghraifft, mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynghylch tir neu ar draws ffiniau a allai effeithio ar ardal forol y DU), a thrwy hynny arwain at roi'r Cynllun Morol ar waith mewn modd effeithiol, effeithlon, amserol a chyson.

Unwaith eto, hoffem ddiolch i aelodau'r WMMAG am eu cyfraniad gwerthfawr drwy gydol y broses gynllunio. Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Mawrth 2018 rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y cynllun yn addas i'r diben, ac roeddem yn falch o gael adborth mor gadarnhaol gan rhanddeiliaid ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu.

Beth am [gofrestru i gael ein cylchlythyr](#) er mwyn dysgu mwy am y cynllun a chlywed y diweddaraf am y cynnydd.

Strategaeth Forol y DU

Yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach eleni, mae Rhan Un o Strategaeth Forol y DU wedi'i chyhoeddi erbyn hyn. Mae'r strategaeth yn cyflwyno'r asesiad diweddaraf o 'Statws Amgylcheddol Da' yn ein moroedd.



Mae'r strategaeth yn ymdrin â 15 o elfennau amgylcheddol, o fioamrywiaeth y môr i sbwriel môr, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o dargedau a dangosyddion a gaiff eu defnyddio i fesur asesiadau o 'Statws Amgylcheddol Da'.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Cynigiodd yr asesiad diweddaraf gyfle i ddiwygio a chyflwyno targedau a dangosyddion mwy grymus i geisio sicrhau 'Statws Amgylcheddol Da' ac ystyried pwysau amgylcheddol a dynol penodol.

Mae'r gwaith i ddiweddarau ail ran y strategaeth (rhaglen fonitro) wedi'i roi ar y gweill a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ddiwedd 2020.

Dyma ddolen yn arwain at Ran Un Strategaeth Forol y DU –

<https://llyw.cymru/strategaeth-forol-y-du>

Mae datblygu'r Offeryn Mynediad Ar-lein Morol (MOAT) yn mynd law yn llaw â chyhoeddi'r strategaeth. Mae'r wefan hon yn sail i asesiadau strategaeth forol y DU ac mae'n cynnig trosolwg cynhwysfawr o bob dangosydd a methodoleg a ddefnyddir. Cafodd y wefan hon ei llunio ar y cyd rhwng pob gweinyddiaeth, a chredwn mai hi yw'r unig un o'i bath yn Ewrop, lle canolbwyntir yn benodol ar y strategaeth. Rhagwelir y bydd y wefan hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd pan ddaw gwybodaeth newydd i'r fei.

Rydym yn annog yr aelodau i gael cipolwg ar y wefan hon – <https://moat.cefas.co.uk/>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Mark Bloomfield (Mark.bloomfield@llyw.cymru).

Bioamrywiaeth a Chadwraeth Forol

Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Ddechrau mis Awst 2019, cyhoeddodd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig Gynllun Gweithredu 2019-2020. Mae'r cynllun yn cynnwys 25 o gamau â blaenoriaeth y dylai Awdurdodau Rheoli a sefydliadau partner eu cyflawni er mwyn rheoli'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn well, a thrwy hynny wella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith. Cafodd manylion am gyflawni'r camau yn y Cynllun Gweithredu blaenorol (2018-2019) – yn cynnwys eu deilliannau a'u canlyniadau – eu nodi yn Adroddiad Blynyddol cyhoeddedig 2018-2019. Anfonwyd e-bost at aelodau'r WMAAG (01 Awst) er mwyn tynnu eu sylw at gyhoeddi'r dogfennau hyn, ynghyd â Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog. Yng nghyfarfod cyntaf Is-grŵp Cadernid Morol WMAAG a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, agorwyd 'Galwad i Weithredu' ar gyfer y Cynllun Gweithredu nesaf (2020-2021) – bydd yr alwad hon yn para am dri mis.

Dolen – Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2019-2020:


<https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-rheolir-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-2019-2020>

DIWEDDARIAD RHANDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Dolen – Adroddiad Blynyddol 2018-2019 ar Reoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-blynyddol-ar-reolir-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig.pdf>

Mae nodyn yn ymwneud â chyfarfod olaf y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, a gynhaliwyd ar 02 Hydref 2019, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/grwp-llywio-ar-reoli-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-2-hydref-2019>

Mae nodyn yn ymwneud â chyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parthau Cadwraeth Morol, a gynhaliwyd ar 09 Ebrill 2019, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/grwp-gorchwyl-gorffen-parthau-cadwraeth-morol-9-ebrill-2019>



Cynllun Gweithredu Sgîl-ddalfeydd Adar Môr y DU

Mae Llywodraethau'r DU, Cyrrff Cadwraeth Natur Statudol a rhanddeiliaid wrthi'n llunio Cynllun Gweithredu Sgîl-Ddalfeydd Adar Môr y DU. Roedd gweithdy i randdeiliaid y DU, a drefnwyd gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur (JNCC), i fod i gael ei gynnal yn Llundain ar 20 Tachwedd 2019, ond bu'n rhaid ei ohirio oherwydd y Cyfnod Cynetholiadol. Bydd y gweithdy hwn yn cael ei aildrefnu, ynghyd ag ymgysylltu pellach, gyda golwg ar gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu y flwyddyn nesaf. Yn achos aelodau'r WMAAG sydd â diddordeb mewn cymryd rhan, ond nad ydynt wedi cael gohebiaeth gan y JNCC, dylid cysylltu â Wendy Dodds: wendy.dodds@llyw.cymru

DIWEDDARIAD RHANDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Ymgynghoriad ar Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamhidyddion y DU

Y bwriad oedd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamhidyddion y DU ddiwedd mis Tachwedd. Caiff yr ymgynghoriad ei arwain gan Marine Scotland ar ran gweinyddiaethau'r DU a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol, ac roedd i fod i gael ei gynnal am 14 wythnos.

Gan na chafodd Marine Scotland gymeradwyaeth ar gyfer hyn gan Weinidogion y DU cyn diddymu'r Senedd o flaen yr etholiad, mae'r ymgynghoriad bellach wedi'i ohirio tan ar ôl yr etholiad cyffredinol.

Mae'r strategaeth wedi'i datblygu ar y cyd â holl awdurdodau'r DU a'i bwriad yw sicrhau rheolaeth effeithiol a sicrhau a/neu gynnal statws cadwraethol ffafriol y naw math o greadur o deulu'r morfil a welir yn fwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU, sef:

- Llamhidydd
- Dolffin cyffredin
- Dolffin ystlyswyn
- Dolffin trwyn potel
- Dolffin pigwyn
- Dolffin Risso
- Lleiddiad
- Morfil pengrwn
- Morfil pigfain

Is-grŵp Cadernid Morol WMAAG

Cynhaliodd Is-grŵp Cadernid Morol WMAAG ei gyfarfod cyntaf ar 13 Tachwedd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth.

Bu'r Grŵp yn ymdrin â dau brif bwnc yn ystod ei gyfarfod cyntaf:

- **Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig – Datblygu'r cynllun gweithredu nesaf**

Yn ystod y rhan yn ymwneud â Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, cafodd rhanddeiliaid ddysgu am y broses a ddefnyddir gan y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i sgorio a blaenoriaethu camau y dylid eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu blynyddol.

DIWEDDARIAD RHANDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Cymerodd y mynychwyr ran mewn ymarfer grŵp lle bu'n rhaid iddynt ddefnyddio'r broses hon i sgorio a blaenoriaethu senario ddamcaniaethol er mwyn deall y broses yn well a helpu i gryfhau camau y gallent ddymuno'u cyflwyno yn y dyfodol.

Yn dilyn hyn, rhoddwyd 'Galwad i Weithredu' ar waith ar gyfer Cynllun Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig 2020-21, er mwyn galluogi rhanddeiliaid i gyflwyno camau. Bydd yr 'Alwad i Weithredu' yn dod i ben ar 17 Ionawr 2020. Sylwer: ers hynny, mae'r 'Alwad i Weithredu' wedi'i dosbarthu i'r WMAAG i gyd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau'n ymwneud a'r 'Alwad i Weithredu', cysylltwch â Wendy Dodds, Llywodraeth Cymru: wendy.dodds@llyw.cymru.

- **Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol – SoNaRR 2**

Yn ystod y sesiwn hon, clywodd rhanddeiliaid am amserlen Adroddiad Interim 2019 a SoNaRR 2 2020; a thrafodwyd y modd y gall rhanddeiliaid ymgysylltu â'r broses.

Bydd Adroddiad Interim 2019 yn cynnwys negeseuon allweddol a ddaw i'r amlwg yn sgil gwaith tystiolaeth Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR), yn cynnwys Datganiadau Ardal; bylchau mewn tystiolaeth sydd newydd ddod i'r amlwg; a chynlluniau ar gyfer delio â bylchau mewn tystiolaeth. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ar ffurf gwe-dudalennau hygrych y gellir eu hargraffu. Defnyddir iaith glir a diddorol yn yr adroddiad.

Bydd SoNaRR 2 yn cynnwys: y cyflwr a'r tueddiadau presennol; newidiadau yn y dyfodol; asesiad o sut mae SMNR yn cael ei gyflawni; blaenoriaethau asesu a chyfleoedd i weithredu; dangosyddion canlyniadau ar gyfer SMNR; ac Asesiad o fioamrywiaeth.

Yn ystod y sesiwn, trafodwyd rôl rhanddeiliaid o ran cyfrannu at yr asesiad o SMNR yn yr ecosystem forol. Yna, cynhaliwyd trafodaethau bord gron i ymdrin â dau faes:

1. **Cyflwr a thueddiadau ecosystemau;** Pwysau, bygythiadau, problemau a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol, Asesu cyflwr, tueddiadau a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol, Asesu cadernid ecosystemau trwy ystyried eu maint, eu cyflwr, eu cysylltiad â chynefinoedd a'u hamrywiaeth.
2. **Gwasanaethau ecosystemau er budd llesiant;** Asesu: Tuag at Economi Gylchol gyda defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol, Asesu: Mannau iach i bobl, sydd wedi'u hamddiffyn rhag risgiau amgylcheddol.

Bydd cydweithredu ac ymgysylltu pellach ynghylch y pynciau hyn, a SoNaRR 2 yn fwy cyffredinol, yn parhau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r cyflwyniad a sut i ymgysylltu, cysylltwch â Dan Crook, Cyfoeth Naturiol Cymru: daniel.crook@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Polisi a Rheoli Pysgodfeydd

Ym mis Medi 2019, aethom ati i ad-drefnu ein hadnoddau staff yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd er mwyn ein galluogi i ddelio'n well â meysydd gwaith â blaenoriaeth. Fel rhan o hyn, rydym wedi cyfuno ein helfennau Polisi Pysgodfeydd a Rheoli Pysgodfeydd domestig o fewn un gangen. Bydd y gangen newydd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Polisi a Deddfwriaeth Pysgodfeydd Domestig
- Rheoli Pysgodfeydd a Ganiateir
- Polisi Pysgodfeydd Dŵr Croyw
- Polisi Dyframaeth a Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol

Ar gyfer y meysydd gwaith pysgodfeydd morol a ddangosir uchod, canolbwynt y gangen newydd yn y lle cyntaf fydd cyflawni blaenoriaethau presennol yn ymwneud â pholisi pysgodfeydd. Ymhellach, byddwn yn adeiladu ar y gwelliannau sylweddol yr ydym wedi'u gwneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn y ffordd y caiff pysgodfeydd a ganiateir eu rheoli. Yn y tymor hwy, byddwn yn datblygu dull strategol i gyflawni pob un o'n meysydd gwaith mewn perthynas â pholisi a rheoli pysgodfeydd, er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rhan allweddol o'r gwaith hwn fydd cyflwyno mesurau rheoli hyblyg ar gyfer rheoli pysgodfeydd, y gellir eu haddasu mewn ymateb i newidiadau mewn lefelau stoc ac amgylchiadau amgylcheddol. Bydd y pwerau hyblyg hyn yn galluogi Gweinidogion i ddwyn ymlaen deddfwriaeth i gyflwyno awdurdodiadau gydag amodau cysylltiedig ar gyfer pysgodfeydd penodol lle gall rheolwyr reoli dalfeydd, nifer y cychod, yr ardaloedd a gaiff eu pysgota neu agweddau eraill ar y bysgodfa, mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a thystiolaeth.

Yn ystod y chwarter nesaf byddwn yn integreiddio meysydd gwaith gwahanol y gangen newydd mewn un cynllun busnes.

Cregyn moch – Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda chyfreithwyr i lunio offeryn statudol pellach sy'n angenrheidiol i reoli pysgodfeydd cregyn moch Cymru.

Cosbau Gweinyddol Sefydlog – Mae deddfwriaeth newydd yn ymwneud â Chosbau Gweinyddol Sefydlog, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2019, yn berthnasol i droseddau yn yr UE a'r DU; caiff y gosb uchaf ei chynyddu i £10k.

Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru – rheoli offer pysgota symudol ar gynefinoedd EMS sensitif. Mae cynigion rheoli Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu fel y gellir ymgynghori yn eu cylch ddechrau haf 2020.

Cynllun Rheoli Cocos – Bwriad y maes polisi hwn yw rheoli cocos yn well yng Nghymru. Disgwylir ymgynghoriad yn gynnar yn 2020.

Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd

Ar 2 Medi 2019 cafodd ein hadnoddau staff eu had-drefnu yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd er mwyn ein galluogi i ddelio'n well â meysydd gwaith â blaenoriaeth. Fel rhan o hyn, rydym wedi cyfuno ein helfennau Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd mewn un gangen.

Bydd y gangen newydd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- **Cynnal Gwyddoniaeth Pysgodfeydd Gweithredol** (agor a chau pysgodfeydd);
- **Darparu Cyngor Gwyddoniaeth-Polisi** (ymadael â'r UE, polisi pysgodfeydd, trafod cwotâu, Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a goddefebau/eithriadau);
- **Ymdrin â bylchau mewn Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd** (contractio a chydlynu'r dasg o gasglu data am safleoedd pysgota a physgodfeydd morol â blaenoriaeth yng Nghymru);
- **Mynychu Fforymau Perthnasol yn ymwneud â Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd** (er mwyn sicrhau bod anghenion tystiolaeth Cymru yn cael eu cynrychioli'n rhanbarthol, ar lefel y DU ac yn rhyngwladol).

O safbwynt y meysydd gwaith uchod, canolbwynt y gangen newydd fydd datblygu Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd sy'n cyd-fynd â Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019-2025 (a gyhoeddwyd yn ddiweddar) a sefydlu Fframwaith Contract Tystiolaeth, tra'n parhau i gyflawni blaenoriaethau sydd i'w cael eisoes yn ymwneud â gwyddoniaeth-polisi pysgodfeydd. Mae'r blaenoriaethau polisi presennol yn amrywiol, gan gwmpasu rheoli a pholisi pysgodfeydd domestig, cenedlaethol a rhyngwladol, polisi dyframaeth a chynlluniau cyllido'r dyfodol.

Ymhellach, rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Forol i drafod sut gallwn helpu fel Bwrdd Llywodraethu Tystiolaeth i oruchwylio ac adolygu cynlluniau a phrosiectau tystiolaeth y dyfodol. Yn y tymor hwy, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd i ddatblygu golwg hir ar gyfleoedd pysgota sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd pysgota sy'n ehangu, er mwyn sicrhau bod gwyddoniaeth a thystiolaeth briodol parthed pysgodfeydd ar gael pan fo angen i ategu'r gwaith o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.

Yn ystod y chwarter nesaf byddwn yn integreiddio meysydd gwaith y gangen newydd mewn cynllun busnes, yn cynnal gwyddoniaeth pysgodfeydd gweithredol ac yn darparu cyngor yn ymwneud â gwyddoniaeth-polisi fel y nodir uchod, ac yn datblygu'r Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd (morol ar hyn o bryd) er mwyn cynnwys anghenion tystiolaeth blaenoriaethol yn ymwneud â physgod dŵr croyw a physgod

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

sy'n ymfudo rhwng dŵr hallt a dŵr croyw, a dyframaeth yng Nghymru. Ar ôl i hyn gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog, byddem yn croesawu adborth gan yr aelodau ar gyflawni'r cynllun hwn a'r prosiectau cysylltiedig.

£2.4m o gyllid ychwanegol a Chynllun Olynu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynllun cyflenwol annibynnol gan ddefnyddio £2.4m o gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, rhaid cadw mewn cof beth sydd i'w gael ar hyn o bryd trwy'r EMFF, ond nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Cynllun Olynu'r EMFF

Prosiect cyllido Ewropeaidd yw Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) sy'n cynorthwyo pysgodfeydd a Dyframaeth. Dechreuodd y rhaglen yn 2014 ac mae i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno rhaglen ddomestig yn lle'r cynllun hwn, a fydd yn parhau i gynorthwyo'r diwydiannau pysgota a dyframaeth yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n casglu tystiolaeth i'w defnyddio fel sail i gynigion ar gyfer cynllun newydd. Bydd y swyddogion yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lunio cynigion ac yna ymgysylltu â'r diwydiant trwy gyfrwng ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol y bwriedir ei gynnal ddechrau'r flwyddyn nesaf. Bydd angen i ni ystyried i ba raddau y bydd unrhyw gynllun newydd yng Nghymru yn integreiddio â rhannau eraill o'r DU. Hefyd, bydd angen ystyried cwrmpas y cymorth a sut i'w dargedu.

Her Rheoli a Gorfodi Brexit

Pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac yn dod yn Wladwriaeth Arfordirol, fe fydd yna nifer o heriau i'w goresgyn er mwyn sicrhau ein bod wedi paratoi ar gyfer rheoli ein moroedd a chynorthwyo ein diwydiant i barhau i fasnachu. Er y bydd trafodaethau, i raddau helaeth, yn gyfrifol am reoli ble gall ein fflydoedd ni a fflydoedd yr UE bysgota, efallai y ceir anhawster cael mynediad at ddata sylfaenol fel VMS ac Elogs. Yn sgil hyn, efallai y bydd modd i gychod a llongau pysgota o drydydd gwledydd dresmasu heb yn wybod i ni.



Rydym yn rhagweld y bydd y prif heriau o ran rheoli a gorfodi mewn perthynas â Brexit yn digwydd ar y môr, ac mae llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau y bydd ein hasedau ar y môr wedi ymbaratoi ac yn barod i ymateb. Mae'r gwaith hwn wedi

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

golygu cael gafael ar adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gall y cychod a'r llongau fynd ar y môr.

Ymhellach, mae cynlluniau wedi'u datblygu i reoli'r risg hon trwy gydlynw asedau sydd gan Lywodraeth Cymru, Gweinyddiaethau Pysgota eraill a phartneriaid gorfodi, er mwyn sicrhau bod gan y DU ddull cydlynus o blismona ein moroedd.

Rydym wedi llwyddo i gael nifer sylweddol o staff ychwanegol i ddelio â'r heriau Rheoli a Gorfodi a ddaw i'n rhan o ganlyniad i Brexit. Mae hyn yn cynnwys llawer o Swyddogion Gorfodi Morol ychwanegol a fydd yn gweithio ar hyd yr arfordir.

Pysgodfeydd a Brexit

O safbwynt y Fasnach a'r Diwydiant Pysgodfeydd, gellir dod o hyd i'r holl newyddion diweddaraf am Brexit yn y Bwletin Brexit. Mae'r bwletinau hyn i'w cael ar ein gwefan, neu gallwch gofrestru i'w cael yn uniongyrchol i'ch mewnlwch.

<https://llyw.cymru/cofrestrwch-i-fwletin-pysgodfeydd-brexit>

Polisi Pysgodfeydd y Dyfodol – Brexit a'n Moroedd

- Daeth yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd i ben ar 21 Awst. Diolch am yr ymatebion a gawsom gan aelodau'r grŵp hwn.
- Cawsom gyfanswm o 57 o ymatebion yn mynegi barn eang. Rydym yn ystyried yr ymatebion, a bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad yn ddiweddarach yn yr hydref.

Bil Pysgodfeydd y DU

- Cafodd Bil Pysgodfeydd y DU ei gynnwys yn araith y Frenhines. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi Etholiad Cyffredinol y DU, rydym yn disgwyl i Lywodraeth newydd y DU ffurfio a phennu ei agenda ddeddfwriaethol maes o law. Byddem yn disgwyl i Lywodraeth nesaf y DU fwrw ymlaen â Bil Pysgodfeydd y DU.
- Ein 'llinell goch' o ran Bil Pysgodfeydd y DU yw ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn materion yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod i ranbarth môr mawr Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ddwyn ymlaen Fil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru a Pharth Cymru.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

- Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr o bob cwr o'r DU i roi fframwaith ar waith sy'n cydnabod natur ddatganoledig y maes rheoli pysgodfeydd ac yn cefnogi'r pysgodfeydd cynaliadwy.

Deddfwriaeth Ymadael â'r UE

- Caiff pysgodfeydd eu rheoli trwy gyfrwng nifer fawr o reoliadau manwl a chymhleth gan yr UE. Mae'n bwysig i'r diwydiant beidio â chael ei adael ar y clwt ar ddiwrnod 1. Felly, mae rhaglen deddfwriaethol enfawr wedi bod ar waith er mwyn sicrhau y bydd gennym fframwaith deddfwriaethol gweithredol pan fyddwn yn gadael yr UE, gan leihau unrhyw broblemau cyn belled ag y bo modd.

Cynllun Ymyrraeth Argyfwng Bwyd Môr:

Yn sgil Brexit heb gytundeb, disgwylir i rwystrau tariff a di-dariff ar ddiwydiant bwyd Cymru amharu'n fawr ar y fasnach mewn cynhyrchion pysgodfeydd. Mae diwydiant pysgota Cymru yn arbennig o fregus yn hyn o beth. Mae dros 80% o'r allforion pysgod o Gymru i'r UE yn ymwneud â physgod cregyn. Mae'r diwydiant wedi'i seilio ar amser cyflawni o 48 awr ar gyfer cynhyrchion byw a ffres. Felly, fe allai unrhyw oedi cyn mynd â'r cynhyrchion i'r farchnad arwain at effaith uniongyrchol a thrychinebus ar fusnesau sydd, ar y cyfan, yn fusnesau micro a bach na allant wrthsefyll ergydion ariannol yn dda iawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Defra a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ddatblygu cynllun ymyrraeth ariannol ar gyfer y sector pysgodfeydd. Bydd y cynllun hwn yn cyfrannu at gyfalaf gweithio perchnogion cychod a llongau tra bydd y farchnad yn simsan o ganlyniad i Brexit heb gytundeb.

POLISI PYSGODFEYDD CYFFREDIN

Rhwymedigaeth Glanio/Cynllun Gwaredu

Cydargymhelliad gan Grŵp Rhanbarthol Dyfroedd y Gogledd Orllewin.

Erbyn hyn mae Comisiwn yr UE wedi llunio Rheoliad Dirprwyedig drafft sy'n adlewyrchu'r arolwg gwyddonol o Gydargymhelliad Grŵp Rhanbarthol Dyfroedd y Gogledd Orllewin. Cynhaliwyd yr arolwg hwn gan y Pwyllgor Gwerthuso Gwyddonol a Thechnegol ar gyfer Pysgodfeydd (STECF).

Yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Gwerthuso (STECF) mae'r Comisiwn yn gwrthwynebu nifer o eithriadau a gynigiwyd gan yr Aelod-wladwriaethau (naill ai eithriadau newydd neu rai sydd i'w cael eisoes ac sydd wedi'u hymestyn) lle nad yw'r dystiolaeth, yn eu tyb nhw, yn cwrdd â'r cwrpas na'r safonau y cytunwyd arnynt yn flaenorol a lle na cheir, ym marn y Comisiwn, gynnydd digonol o ran gweithredu'r

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

Rhwymedigaeth Glanio. Mae'r Aelod-wladwriaethau'n wynebu'r posibilrwydd y bydd y Cydargymhelliad yn cael ei wrthod yn llwyr, felly mae gofynion y Comisiwn wedi cael eu derbyn.

Os bydd drafft terfynol y Rheoliad Dirprwyedig wedi'i lunio mewn pryd ar gyfer cyfarfod yr WMFAG, bydd yn cael ei gynnwys yn y papurau.

Cynllun Lleihau Sgil-ddalfeydd

Yn wyneb cyngor yn ymwneud â 'dalfa sero' ar gyfer pump o stociau yn rhanbarth Dyfroedd y Gogledd Orllewin – sef Penfras y Môr Celtaidd, y Gwyniad Môr a'r Lleden, ynghyd â Gwyniad Môr Iwerddon a Phenfras Gorllewin yr Alban – efallai fod yr aelodau'n cofio bod cytundeb a wnaed yng nghyfarfod Cyngor yr UE yn 2018 i roi caniatâd i osod cwotâu, er mwyn caniatáu sgil-ddalfeydd ac osgoi senarios 'atal', yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu BCRP ar gyfer y stociau dan sylw.

Er mai cysylltiad ymylol sydd gan bysgotwyr Cymru â'r pysgodfeydd dan sylw, ar gyfer y manau mae gennym gyfleoedd pysgota bydd angen i ni fod yn wylidwrus er mwyn sicrhau na fydd ein harferion pysgota cynaliadwy, lleol (nad ydynt yn cynhyrchu sgil-ddalfeydd) yn cael eu gwasgu'n afresymol gan gynigion amgen a gyflwynir.

Mesurau Cadwraeth Technegol



Daeth Rheoliad Mesurau Cadwraeth Technegol newydd (UE) 2019/1241 Senedd a Chyngor Ewrop 20 Mehefin 2019, yn ymwneud â gwarchod adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau morol trwy gyfrwng mesurau technegol, i rym ym mis **Gorffennaf 2019**. Er eglurder i aelodau'r WMFAG, dim ond i Fôr y Canoldir mae'r gwaharddiad ar gimychiaid llawn wyau yn berthnasol.

Dyma ddolen yn arwain at y Rheoliad:

<https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32019R1241&from=EN>

Rheoliad Rheoli

Mae'r trafodaethau ynglŷn â chynigion y Comisiwn yn parhau. Mae lefel y pryderon/gwrthwynebiad o fewn yr Aelod-wladwriaethau ynglŷn â'r manylion wedi atal y cynnydd yn 2019 i bob pwrpas. Y gobaith yw y bydd Llywyddiaeth newydd y Ffindir yn arwain at adnewyddu'r momentwm, ac efallai y ceir peth goleuni ar y mater yn yr hydref.

Cwotâu Pysgod Ewrop ar gyfer 2020 a Dull y DU

Y polisi a roddir ar waith ar hyn o bryd gan weinyddiaethau'r DU yn eu dull o ymdrin â thrafodaethau ynghylch y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw bod gennym ran i'w chwarae yn y broses benderfynu ac felly y byddwn yn mynd i'r afael â'n gwaith beunyddiol yr un fath ag arfer hyd nes y byddwn yn gadael yr UE.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR – TACHWEDD 2019

I'r perwyl hwnnw, rydym yn parhau i gyfrannu at safbwynt y DU ar y materion allweddol canlynol yn ymwneud â chwotâu:

- Y cyfnod sy'n arwain at Gyngor Pysgodfeydd yr UE ym mis Rhagfyr 2019
- Trafodaethau ar gwtâu a chyfluoedd dal ar gyfer 2020
- Rhwymedigaeth Glanio'r UE a Chynlluniau Gwaredu yn Nyfroedd y Gogledd Orllewin ar gyfer 2020 a thu hwnt

Cwotâu Cymru yn 2019

Ymddengys y bydd y dyraniadau cwota a neilltuwyd i Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r flwyddyn (a'r cyfnewidiadau niferus a wnaed i gyflwyno cwota ychwanegol) yn caniatáu i gychod a llongau Cymru sydd dan 10m bysgota pob rhywogaeth tan ddiwedd y flwyddyn.

Cynigion ar gyfer 2020

Mae Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) wedi llunio'i gyngor ar gyfer 2020 mewn perthynas â'r prif rywogaethau masnachol, ac mae'r sefyllfa gyffredinol yn ffafriol i Gymru o safbwynt ei rhywogaethau allweddol.

Mae'n debygol y ceir cynnydd sylweddol mewn perthynas â lledod chwithig a lledod ym Môr Iwerddon a Môr Hafren, ac mae'n debygol y gellir cario cwotâu morleisiaid ymlaen o un flwyddyn i'r llall. Yn anffodus, mae stociau penfreision a gwyniaid môr yn parhau i ddirywio, felly bydd pysgota am y rhywogaethau hyn yn cael ei gyfyngu'n arw, gyda'r posibilrwydd o beidio â chael unrhyw gwota ar eu cyfer (ac eithrio sgil-ddalffa fach iawn). Nid yw'r sefyllfa o ran hadogiaid fawr gwell.

Ni cheir unrhyw arwydd y bydd y Comisiwn yn llacio'r gwaharddiad presennol ar ddalfeydd cŵn pigog.

Pysgota Draenogiaid Môr yn 2020

Mae cyngor ICES ar gyfer 2020* wedi'i gyhoeddi ac erys y stoc mewn cyflwr gwael, gyda Biomass y Stoc Silio (SSB) yn dal i fod yn is na'r hyn a ystyrir yn lefel dderbyniol ddiogel. Ymhellach, byddwn yn ystyried rhoi cefnogaeth i ailasesu trefniadau cau tymhorol a 'therfynau bagiau' ar gyfer pysgotwyr hamdden.

Ymddengys fod cyngor ICES yn dangos cynnydd ceidwadol o 7.8% o safbwynt cyfanswm dalffa'r UE ar gyfer 2020. Mae hyn yn bennaf oherwydd stoc fagu uwch na'r cyfartaledd yn 2013 a 2014. Rydym yn parhau i gael adroddiadau fod digonedd o ddraenogiaid môr ifanc i'w cael yn nyfroedd glannau Cymru eleni. Nid yw'r rhwymedigaeth glanio'n berthnasol i'r draenogyn môr, felly mae modd gwaredu pysgod bach neu ddalfeydd sydd uwchlaw'r cyfyngiadau presennol.

DIWEDD